**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cyflawni Corfforaethol Addysg a Sgiliau

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Mercher, 25 Ionawr 2023 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd M Durke (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| B Hopkins | L R Jones | S Pritchard |
| T M White | R V Smith | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Stephen Holland | Uwch-Gyfreithiwr |
| Helen Howells | Rheolwr tîm Cefnogi Disgyblion |
| Sarah Hughes | Rheolwr Tîm Strategaeth Addysg |
| Helen Morgan-Rees | Cyfarwyddwr Addysg |
| Kate Phillips | Rheolwr yr Uned Ysgolion a Llywodraethwyr |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorydd R V Smith - Aelod y Cabinet Dros Addysg a Dysgu

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): J P Curtice, F M Gordon a/ac S Joy

---

## 31 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 32 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cyflawni Corfforaethol Addysg a Sgiliau a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr 2022 fel cofnod cywir.

## 33 Presenoldeb a Chynhwysiant.

Rhoddodd Helen Howells gyflwyniad Powerpoint a oedd yn amlinellu cefndir datblygu'r cynllun gweithredu ar gyfer presenoldeb.

Roedd y meysydd canlynol wedi'u cynnwys a'u hamlinellu yn y cyflwyniad:

- Mae cynllun gweithredu wedi’i ddatblygu gan fod lefelau presenoldeb wedi bod yn gostwng dros y pedair blynedd ddiwethaf, a'r nod yw creu cynllun clir a chryno ar y cyd â rhanddeiliaid er mwyn i'r Gwasanaeth Lles Addysg allu cyflwyno ffyrdd gwell o weithio a gwella prosesau a fydd yn arwain at ganlyniadau gwell i ddysgwyr yn Abertawe;
- Mae'r cynllun gweithredu wedi'i rannu'n wahanol adrannau ac mae'r rhain wedi'u hamlinellu isod, yn ogystal â'r canlyniadau a ragwelir a'r cynnydd a wnaed hyd yma;
- Y cam cyntaf yw sicrhau bod gan bob ysgol bolisi presenoldeb sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd, ond sydd hefyd yn adlewyrchu'r ymagwedd gyfannol at ymddygiad, presenoldeb a lles;
- Y nodau yw y bydd ein canlyniadau'n cael eu gwella gyda gwell cysondeb ar draws ein holl leoliadau ac rydym am gael polisi sydd wedi'i gydgynhyrchu gyda disgwyliadau clir mewn perthynas â phresenoldeb a monitro ar gyfer yr holl randdeiliaid a ddylai gynnwys rhieni, athrawon a staff awdurdodau lleol;
- Mae cynllun drafft wedi'i lunio ac mae yn ei ddrafft terfynol a dylai gael ei gwblhau erbyn diwedd mis Mawrth, a’r gobaith yw y bydd y pwyllgor hwn yn ei gymeradwyo ym mis Ebrill.
- Mae siart llif ymateb wedi'i chreu a’i rhoi ar waith eisoes, ond mae angen iddi gael ei hymgorffori'n llawn ar draws ysgolion;
- Mae llythyrau sy'n gysylltiedig â'r broses, gan gynnwys y rheini sy'n cyd-fynd â'r hysbysiadau cosb benodedig, wrthi’n cael eu diweddaru. Mae gweithdy tasg a gorffen gyda'n GLlA wedi'i drefnu ac rydym yn gobeithio y bydd gennym y canlyniadau hynny a'r wybodaeth sy’n ymwneud â hynny’n fuan;
- Mae gweithdy tasg a gorffen hefyd wedi'i drefnu ar gyfer penaethiaid yn y cyfarfod trawsgyfnod y bwriedir ei gynnal ar 9 Chwefror ac mae'r drafodaeth arfaethedig hefyd yn cynnwys y ffordd orau o ymgysylltu â llais ein dysgwyr a sut i fesur llais ein dysgwyr, rhywbeth y gwyddom sy'n fater pwysig iawn. Bydd y cyfarfod hwn hefyd yn cynnwys trafodaeth am yr adolygiad o'r GLlA;
- Cysylltwyd â’r Fforwm Rhieni a Gofalwyr hefyd i gefnogi llais ein rhieni a’n gofalwyr, gan ein bod am wneud yn siŵr bod ein holl randdeiliaid yn cael eu cynnwys yn ein polisïau a’n prosesau;
- Cam arall fyddai llunio canllaw clir a chryno i waith y GLlA a gwreiddio argymhellion proses ymgynghori 2019-2020. Nod/canlyniad hyn fyddai sicrhau mewnbwn rhanddeiliaid i sicrhau cysondeb arfer ac ymateb wedi’i dargedu gan ein GLlA, ac iddynt fabwysiadu ffyrdd gwell o weithio i weddu i'r hinsawdd addysgol sydd ohoni;
- Mae presenoldeb cynyddol yn yr ysgol a deilliannau gwell i'n dysgwyr i gyd yn rhan o nodau'r cynllun, felly ein cynnydd hyd yma yw bod y strategaeth cynhwysiad wedi'i chwblhau sy'n darparu'r cyfeiriad strategol ar gyfer gwella presenoldeb wrth symud ymlaen;
- Mae'r tîm cefnogi disgyblion wedi cael eu hadolygu ac mae swydd newydd wedi'i sefydlu a fydd yn darparu arweiniad strategol ar bresenoldeb a gwaharddiadau yn y dyfodol. Bydd y swyddog yn dechrau yn ei swydd ddiwedd mis Chwefror a'r gobaith yw y bydd swydd newydd yn cynyddu gallu o fewn y tîm ac yn caniatáu ar gyfer mwy o oruchwyliaeth strategol;
- Cam gweithredu pellach fyddai ystyried y cynnydd mewn osgoi'r ysgol am resymau emosiynol a sicrhau bod hyn yn llywio datblygiadau i gefnogi'r grŵp

iechyd emosiynol a lles seicolegol (EBSA). Byddai'r adran yn anelu at gefnogi ysgolion i ymgysylltu â rhieni a gofalwyr ar strategaethau presenoldeb;
- Mae hyfforddiant wedi'i drefnu ar gyfer y tîm EBSA cyfan ac rydym yn falch bod hwn yn cael ei roi ar waith o fis Mai 2023 a bod hyfforddiant yn mynd i gael ei gynnal gan un o’n seicolegwyr addysg;
- Adolygiad o’r ymagwedd ysgol gyfan at ariannu iechyd a lles emosiynol ac ymgysylltu agosach â’r grŵp strategol i sicrhau ymateb wedi’i dargedu i gynnydd mewn presenoldeb ac ymgysylltiad, gyda ffocws penodol ar EBSA;
- Y pwynt gweithredu nesaf fyddai dadansoddi data presenoldeb yn well a defnyddio hwn yn rhagweithiol i nodi angen a phennu targedau realistig ar gyfer y dyfodol. Canlyniadau posib y cam gweithredu hwn yw dadansoddiad data rheolaidd i lywio’n harfer. Gofynnwyd i’r GLIA weithio’n wahanol i wella a darparu cymorth dwys wedi’i dargedu i’r ysgolion hynny sydd â phresenoldeb dan 90%;
- Mae Hysbysiadau Cosb Benodedig bellach wedi'u hailgyflwyno ond mae angen dadansoddiad pellach o'u heffeithiolrwydd wrth symud ymlaen. Mae 147 wedi'u cyhoeddi hyd yma ers mis Medi, ond mae effeithiolrwydd cyffredinol yr Hysbysiadau Cosb Benodedig yn ansicr ar hyn o bryd a bydd angen ymchwilio ymhellach i’r rhesymau a’r ffactorau pam y mae rhieni’n parhau i beidio ag anfon eu plant i'r ysgol;
- Cynnydd hyd yn hyn - rydym wedi gweld rhai gwelliannau mewn presenoldeb yn ystod tymor yr hydref, gyda phresenoldeb cyfartalog ar gyfer pob ysgol uwchradd 2% yn uwch na’r flwyddyn flaenorol. Roedd ysgolion cynradd hefyd yn gwneud yn eithaf da yn gyson yn ystod rhan gyntaf tymor yr hydref nes y salwch difrifol a effeithiodd ar ysgolion cynradd yn agosach at gyfnod y Nadolig ac yn amlwg yr wybodaeth a ddaeth gan y GIG am gadw plant gartref os oedd rhieni’n meddwl bod ganddynt y dwymyn goch, strep neu unrhyw gyflyrau o’r fath. Mae hyn wedi effeithio’n aruthrol ar y ffigurau presenoldeb ar gyfer y cyfnod hwnnw;
- Y cam nesaf fyddai sicrhau strategaethau ymyrryd yn gynnar ac atal sy’n gysylltiedig â meysydd blaenoriaeth eraill i sicrhau bod ein plant wir eisiau mynychu’r ysgol, y canlyniadau yr hoffem eu cyflawni o hyn fyddai cefnogi ein teuluoedd ac ailintegreiddio ein plant sydd wedi bod yn derbyn addysg ddewisol yn y cartref i ddychwelyd i'r ysgol;
- Hoffem hefyd ystyried presenoldeb yn gyfannol a sicrhau bod dulliau effeithiol ar waith ar draws y Gyfarwyddiaeth a'r cyngor ehangach. Mae gennym bellach swyddog sydd wedi’i benodi i gefnogi teuluoedd sy’n derbyn addysg ddewisol yn y cartref, a gynyddodd ar ôl COVID. Mae’r swydd yn cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru ac mae’r grant wedi’i dargedu’n benodol at y rheini sy’n derbyn addysg ddewisol yn y cartref;
- Y cam olaf yw cyfleu disgwyliadau’n well i bartneriaid a rhanddeiliaid, yn enwedig ein cyrff llywodraethu ac i ni ddysgu sut i gyfathrebu'n well ar bresenoldeb ar draws yr awdurdod drwy ein sianeli cyfryngau cymdeithasol. Ein nod yw ceisio ymgysylltu â'n teuluoedd nad ydym o bosib wedi ymgysylltu â nhw hyd yn hyn, gan ein bod yn meddwl mai’r ffordd orau o wneud hyn o bosib yw drwy rhwydweithiau a sianeli cyfryngau cymdeithasol Felly un o'n canlyniadau fyddai cysondeb presenoldeb a disgwyliadau ein holl randdeiliaid a gwell deilliannau i'n dysgwyr;

- Mae trafodaethau cychwynnol ynghylch ein cyfathrebiadau cyfryngau cymdeithasol diwygiedig wedi'u cynnal ac rydym yn bwriadu cwblhau unrhyw strategaeth gyfathrebu yn ein polisi presenoldeb.

Gofynnodd aelodau’r pwyllgor nifer o gwestiynau a gwnaethant sylwadau ynghylch yr wybodaeth a amlygwyd yn y cyflwyniad, yn enwedig ynghylch cefnogaeth ar gyfer cyrff llywodraethu a llywodraethwyr, ymgysylltu gwell â rhieni, gweithio ar draws adrannau a dangosyddion perfformiad, ac ymatebodd y Swyddog, y Cyfarwyddwr a’r Aelod Cabinet yn unol â hynny.

Byddai gwybodaeth am ffigyrau presenoldeb yr holl ysgolion ar gyfer tymor yr hydref yn cael ei dosbarthu i aelodau'r pwyllgor ar ôl y cyfarfod.

**34 Cynllun Gwaith**

Siaradodd y Cadeirydd ymhellach ynghylch y cynllun gwaith drafft a gylchredwyd, gan amlinellu y byddai'r ddau gyfarfod nesaf yn canolbwyntio ar Lywodraethu Ysgol Cryfach ac Effeithiol.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.34 pm

**Cadeirydd**